

Ysgol Sul Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa i ddathlu'r Nadolig mewn gwasanaeth arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul. Unwyd y traddodiadol a'r cyfoes wrth ymlwybro i Fethlehem mewn pennill a chân. Cyflwynwyd drama'r geni gan y plant iau ac ychwanegwyd at orfoledd yr Wyl trwy gyfrwng unawdau, adroddiadau, darlleniadau o'r Beibl, gweddiâu a grwpiau canu. Braff oedd gweld ugain o blant a ieuenctid yn cymryd rhan ynghyd â nifer o'r Mamau a phob un yn derbyn canmoliaeth uchel am eu gwaith.

Ar ddiwedd yr oedfa galwodd Sion Corn heibio a bu'n brysur yn dosbarthu anrhegion. Diolch hefyd i Alun ac Eifion am eu rhoddion o ffrwythau.

I gloi prynhawn bendithiol a phleserus iawn mwynhawyd te parti ardderchog wedi ei drefnu gan Llinos a chymorth y rhieni eraill.

Nos Wener 9 Ionawr bu aelodau'r Ysgol Sul a'u Mamau yn diddori preswylwyr Cartref Hafandeg. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando arnynt yn cyflwyno amrywiath o eitemau safonol. Diolchodd Cynthia Adams iddynt am roi o'u hamser a'u doniau i'r Henoed gan ddod â chymaint o bleser i bawb. Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu ac i fwynhau danteithion ysgafn.

Ar Sadwrn 17 Ionawr bu criw o'r plant a'u rhieni ar ymweliad â'r Pantto blynyddol yn Theatr y Werin Aberystwyth gan fwynhau perfformiad gwych, lliwgar, llawn hwyl ac mor broffesiynol.

Mae'n hyfryd croesawu aelodau newydd i'r Ysgol Sul sef Grace a Darcey Lambert sydd wedi setlo lawr yn hapus iawn yn ein plith.

Carwn ddiolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth parod ac i'r plant am eu hymroddiad a'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn.
(*Diolch i Janet am yr adroddiad.*)

Cwrdd Gweddi Chwirydd y Byd (Llanbedr PS)


Dydd Gwener
6ed o Fawrth
San Tomos

Am 2 y prynhawn
Bydd croeso cynnes i bawb.

Cylch Darllen

Cynhelir y Cylch Darllen am 10.30 yn festri Noddfa. Croeso i rai newydd ymuno gyda ni am banded a darllen, ac yna, sgwrs, am argraffiadau, ac ystyr, rhan o'r Beibl. Y thema eleni: Credaf...

4 Chwefror:
11 Mawrth



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Chwefror a Mawrth 2015

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

1 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

8 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gwilym Jones
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

15 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Noddfa	10.00 y bore	Oedfa unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel dan ofal Mrs Delyth Morgans Phillips

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

22 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Delyth Morgans Phillips
Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Gaersalem, Noddfa, a Bethel o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Brynhafod a Seion o dan ofal Mrs Doreen Jones

1 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

8 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	<i>i'w hysbysu</i>
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

15 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa plant a ieuencid

22 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

29 Mawrth

Seion	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
-------	--------------	------------------------

Rhaghysbys 5 Ebrill - Sul y Pasg

Noddfa 9.30 y bore Cymun: unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel

Aberduar 11.00 y bore Cymun: unedig i Aberduar, Seion a Brynhafod

www.bedyddwyrnogleddeifi.org @BedyddGogTeifi facebook - Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod a Noddfa
Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufts*.

Astudiaeth Feiblaidd

Cynhelir yr astudiaethau beiblaidd y tymor hwn am 7.15 yr hwyr ar nos Fawrth, ac unwaith eto rydym yn diolch i'r Parchg Athro Densil Morgan am arwain yr astudiaethau ac i Ann a Densil am ein croesawu i'w cartref, sef y Gilfach ar Heol y Gogledd, Llambed. Mae croeso cynnes i bawb. Y tymor hwn rydym yn llyfr y proffwyd Eseia yn yr Hen Destament (rhifau'r tudalennau yn y Beibl Cymraeg Newydd, 2004).

10 Chwefror: Eseia 49: 1 - 13 (tudalen 665 - 666)

24 Chwefror: Eseia 50: 4 - 11 (tudalen 667)

10 Mawrth: Eseia 52:13 - 53:12 (tudalen 669 - 670) (sesiwn 1)

24 Mawrth: Eseia 52:13 - 53:12 (tudalen 669 - 670) (sesiwn 2)

Y Nadolig yn Aberduar

Cynhaliwyd oedfa hyfryd yng nghapel Aberduar ar gyfer y Nadolig ar y 21ain o Ragfyr. Yn cymryd rhan oedd nifer o bobl ifainc yr eglwys. Cyflwynwyd croeso a'r weddi agoriadol gan Cerys Lloyd. Bu Lowri Wilson yn cyflwyno'r hanes yn yr hen Destament yn sôn am ddyfodiad y baban Iesu. Cyflwynwyd yr emynau gan Gareth Williams, Rhydian Davies, Bleddyn Jones a Llyr Davies. Cafwyd darlleniadau a chyflwyniadau gan Rhydian, Bleddyn, Llyr ynghyd ag Arwel Jenkins a Hedydd Wilson yn sôn am y Nadolig cyntaf. Bu Elin Evans yn adrodd stori am y bocs sgidie gwag ac am gariad merch at ei thad, a bu sôn am gyfraniad yr asyn i stori'r Nadolig gan Lowri Wilson. Yn cyfeilio oedd Brenda Jones Cwrtnewydd. Yn ystod y gwasanaeth canwyd carol hyfryd gan Emlyn Davies. Yn dilyn cafwyd anerchiad gan ein gweinidog y Parch Jill Tomos a wnaeth hefyd ddiolch i bawb. Diwed-dwyd yr oedfa trwy weddi gan Cerys Lloyd ac a wnaeth hefyd gyflwyno'r emyn olaf. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies Glynteg. Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb droi i fewn i'r festri am baned a sgwrs wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

Am naw o'r gloch fore dydd Nadolig cafwyd oedfa hyfryd iawn dan arweiniad ein gweinidog y Parch Jill Tomos. Cyhoeddwyd yr emynau gan Alan Jacob ac Arwel Jenkins gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cafwyd neges arbennig gan y Parch Jill Tomos. Carwn ddymuno blwyddyn newydd dda i'n gweinidog a'r teulu.

(Diolch i Dewi Davies, Glynteg, am yr adroddiad.)